# Cynigion taliadau rheoleiddio Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar gyfer 2026/27

## Cynnwys

Cynnwys ... 2
Rhannwch eich barn ar y taliadau rheoleiddio arfaethedig ... 2
Ynglŷn â Cyfoeth Naturiol Cymru ... 2
Diogelu amgylchedd Cymru ... 3
Ariannu gwaith rheoleiddio amgylcheddol yn gyfrifol ac yn deg ... 3
Adolygiad blynyddol o daliadau ar gyfer 2026/27 ... 4
Ffioedd a Thaliadau Rheoleiddio Arfaethedig ar gyfer 2026/27 ... 5
Rheoli diffygion a ragwelir ac adolygiadau codi tâl yn y dyfodol ... 5
Ymateb i'r ymgynghoriad hwn ... 7
Diogelu data a defnyddio ymatebion ... 7
Y camau nesaf ... 8

# Rhannwch eich barn ar y taliadau rheoleiddio arfaethedig

Rydym am glywed eich barn ar ein diweddariadau arfaethedig i ffioedd a thaliadau rheoleiddio. Bydd eich adborth yn helpu i lunio ein cynigion, gan sicrhau eu bod yn deg, yn dryloyw ac yn effeithiol.

Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, byddwn yn defnyddio eich adborth i lywio ein cynllun codi tâl newydd cyn ceisio cymeradwyaeth gan weinidogion Cymru. Yn amodol ar gymeradwyaeth, ein nod yw cyflwyno'r system newydd o 1 Ebrill 2026.

**Agorodd yr ymgynghoriad deuddeg wythnos hwn ddydd Llun, 20 Hydref 2025 ac mae'n cau am 23:59 ddydd Llun, 12 Ionawr 2026.**

# Ynglŷn â Cyfoeth Naturiol Cymru

Ein diben yw ceisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae hyn yn golygu gofalu am aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phridd, i wella llesiant Cymru a darparu dyfodol gwell i bawb.

Credwn y dylid defnyddio adnoddau naturiol yn gyfrifol, mewn ffordd ac ar raddfa sy'n cryfhau gwydnwch ein hecosystemau a'r buddion maent yn eu darparu, gan ddiwallu anghenion cenedlaethau'r presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion.

# Diogelu amgylchedd Cymru

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn chwarae rhan hanfodol wrth amddiffyn ecosystemau ac atal niwed i'n hamgylchedd ar gyfer cymunedau, busnesau a chenedlaethau'r dyfodol. Gyda phwysau cynyddol yn sgil newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth, ni fu'r gwaith o ddiogelu ein hamgylchedd erioed mwy cymhleth a phwysig.

Mae gwasanaethau rheoleiddio yn darparu sylfaen sy'n atal niwed amgylcheddol ac yn sicrhau chwarae teg, lle nad yw busnesau sy'n cael eu rheoli'n dda yn cael eu tanseilio gan weithredwyr anghyfreithlon yn yr un sector. Rydym yn asesu ac yn penderfynu ar geisiadau am drwyddedau, yn gosod amodau i ddiogelu'r amgylchedd ac yn monitro sut mae safonau deddfwriaethol yn cael eu bodloni – sydd oll yn allweddol i gynnal amgylchedd cynaliadwy o ansawdd uchel.

Mae ein penderfyniadau wedi'u hategu gan dystiolaeth ac yn cefnogi ein hymateb i'r argyfyngau natur a hinsawdd yr ydym yn eu hwynebu ar hyn o bryd.

Mae ein hymdrech reoleiddio yn blaenoriaethu gweithgareddau a lleoliadau sy'n peri'r risg amgylcheddol fwyaf. Rydym yn helpu i sicrhau bod y rhai rydym yn eu rheoleiddio yn cydymffurfio ag amodau eu trwydded drwy ddarparu cyngor ac arweiniad, a gwneud gwaith cydymffurfedd a ariennir fel arfer drwy ffioedd cynhaliaeth blynyddol. Lle nodir achosion o ddiffyg cydymffurfio, mae gennym ystod o gamau gweithredu y gallwn eu dilyn i sicrhau bod gweithredwyr yn cydymffurfio, neu gallwn gymryd camau gorfodi gan gynnwys erlyn os yw'n angenrheidiol ac yn gymesur gwneud hynny.

Drwy wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a dilyn dulliau rheoleiddio rhagweithiol, rydym yn gweithio i greu amgylchedd teg, gwydn a ffyniannus i Gymru, nawr ac am genedlaethau i ddod.

# Ariannu gwaith rheoleiddio amgylcheddol yn gyfrifol ac yn deg


Mae ein gwaith rheoleiddio yn cael ei ariannu drwy gyfuniad o grantiau gan Lywodraeth Cymru (cymorth grant) a, lle mae deddfwriaeth yn caniatáu, ffioedd a godir ar y rhai rydym yn eu rheoleiddio.

Mae *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*[2], a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2016 yn nodi'r egwyddorion a'r fframwaith adfer costau a rheoli cyllid y mae'n rhaid i CNC eu dilyn. Ein dull yw adennill y gost lawn o ddarparu ein gwasanaethau oddi wrth y rhai sy'n cael eu rheoleiddio gennym, yn hytrach na thrwy drethiant cyffredinol lle bynnag y bo modd. Dim ond ar gyfer y gwasanaeth rheoleiddio y bwriedir iddo ei gefnogi y dylid defnyddio'r incwm a gynhyrchwn o'n taliadau.

Mae ffioedd a thaliadau rheoleiddio yn cyfrif am oddeutu 16% o gyfanswm ein cyllid ar gyfer 2025/26. Mae manylion ein cynlluniau codi tâl cyfredol ar gael ar ein gwefan[1].

[1] Cyfoeth Naturiol Cymru / Ein taliadau
[2] Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru

**Ffigur 1 – Dadansoddiad o gyllideb £298 miliwn CNC ar gyfer 2025/26**




# Adolygiad blynyddol o daliadau ar gyfer 2026/27

Ar gyfer 2026/27, rydym yn ymgynghori ar newidiadau a fyddai'n cynnal ein cynlluniau codi tâl mewn ymateb i bwysau chwyddiant a diffygion a ragwelir, gan sicrhau bod ein model ariannu'n parhau i fod yn gynaliadwy.

Rydym hefyd wedi dechrau adolygiad cynhwysfawr o ffioedd cynhaliaeth (cydymffurfedd blynyddol) i sicrhau bod ein gwasanaeth yn effeithlon a bod ein ffioedd yn adennill ein costau'n ddigonol. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn cael ein hariannu'n gynaliadwy i gyflawni ein dyletswyddau rheoleiddio.

Mae'r cynigion ar gyfer adolygiad 2026/27 wedi'u harwain gan ein hegwyddorion codi tâl:

- **Adennill costau'n llawn** – mae'r taliadau yn adlewyrchu'r gost lawn ar gyfer darparu ein gwasanaethau, gan gynnwys ceisiadau am drwyddedau a chynhaliaeth (asesiadau cydymffurfio blynyddol).
- **Tryloywder** – rydym wedi bod yn dryloyw yn y ffordd rydym wedi gwneud ein penderfyniadau codi tâl.
- **Dim cymorthdalu croes** – mae pob system reoleiddio yn cael ei hariannu gan ei ffioedd ei hun, gan gynnal tegwch ar draws y sectorau.
- **Cefnogaeth ar gyfer cynllunio hirdymor** – lle bynnag y bo modd, rydym yn cefnogi cynllunio hirdymor, gan ddarparu gwydnwch ar gyfer y dyfodol a sicrwydd i'r rhai sy'n gwneud taliadau.

- **Rheolaeth ariannol gytbwys** – rydym yn rheoli gwargedion a diffygion yn weithredol er mwyn osgoi amrywiadau sydyn mewn taliadau.

- **Effeithlonrwydd** – mae ffocws parhaus ar brosesau symlach i helpu i gadw taliadau mor isel â phosibl.

- **Dull nid-er-elw** – nid ydym yn cynhyrchu elw wrth y rhai sy'n gwneud taliadau.

- **Yn annibynnol o gymorthdaliadau trethdalwyr ac yn seiliedig ar egwyddorion 'y llygrwr sy'n talu'** – nod ein model ariannu yw lleihau dibyniaeth ar arian cyhoeddus.

# Ffioedd a Thaliadau Rheoleiddio Arfaethedig ar gyfer 2026/27

## Rheoli diffygion a ragwelir ac adolygiadau codi tâl yn y dyfodol

O 1 Ebrill 2026 rydym yn cynnig cynnal ein taliadau rheoleiddio ar y lefelau presennol, cyn belled ag y bo modd. Fodd bynnag, mae angen gwneud addasiadau i reoli pwysau chwyddiant a mynd i'r afael â'r diffygion mewn systemau penodol.

Mae ein hadolygiad parhaus o daliadau blynyddol wedi tynnu sylw at y meysydd canlynol lle mae angen i ni newid ein taliadau ar gyfer 2026/27:

**Taliadau (cais) trwyddedu**

Rydym yn cynnig cynnydd o +3% yn y meysydd trwyddedu canlynol yn unol â chwyddiant a phwysau cost eraill

- Adnoddau dŵr (dynnu a chronni dŵr)
- Gosodiadau'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (gan gynnwys y Gyfarwyddeb Cyfarpar Hylosgi Canolig)
- Gwastraff sydd o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol
- Ansawdd dŵr o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (gan gynnwys taliadau Deddf y Diwydiant Dŵr hefyd)
- Deunyddiau anniwclear o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol
- Trwyddedu rhywogaethau
- Diogelwch cronfeydd dŵr

**Taliadau cynhaliaeth blynyddol (gweithgaredd cydymffurfio) i reoli chwyddiant a phwysau costau eraill:**

- Gweithfeydd sydd o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (gan gynnwys y Gyfarwyddeb Gweithfeydd Hylosgi Canolig) – rydym yn cynnig cynnydd gan 3%.

- Ansawdd dŵr o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol – rydym yn cynnig cynnydd gan 3%.
- Cludo gwastraff yn rhyngwladol o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol – rydym yn cynnig cynnydd gan 3%.
- Diogelwch cronfeydd dŵr – rydym yn cynnig cynnydd gan 3%.
- Trwyddedau Gweithgareddau Perygl Llifogydd – rydym yn cynnig cynnydd gan 3%.

**Taliadau cynhaliaeth blynyddol (gweithgaredd cydymffurfio) lle mae diffyg**

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd a brys adolygiad llawn o daliadau cynhaliaeth, sy'n cynnwys ystyried ein prosesau a'n lefelau gwasanaeth yn y dyfodol. Byddwn yn blaenoriaethu'r cyfundrefnau mwy, gan ddechrau gydag Adnoddau Dŵr sydd eisoes wedi dechrau, ac yna Ansawdd Dŵr, Gwastraff a Gosodiadau dros y 5 mlynedd nesaf.

Pan ffurfiwyd CNC, roedd ein taliadau’n adlewyrchu rhai cyrff blaenorol. Arhosodd y taliadau hyn yn sefydlog am nifer o flynyddoedd ac nid oeddent bob amser yn adlewyrchu'n llawn y gost gynyddol o redeg ein gwasanaethau.

Rydym yn chwilio o hyd am ffyrdd o symleiddio ein gwasanaeth a herio ein dulliau gweithredu i sicrhau ein bod yn cyflawni canlyniadau a'n dyletswyddau cyfreithiol, fodd bynnag, er gwaethaf hyn mae taliadau cynhaliaeth mewn cyfundrefnau penodol wedi methu ag adennill ein costau yn ddigonol, gyda diffygion yn cynyddu.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae CNC, fel busnesau eraill ledled Cymru, wedi profi pwysau chwyddiant sylweddol. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod cost darparu ein gwasanaeth rheoleiddio presennol hefyd yn cynyddu. Mae angen i'n cyllid gyd-fynd â'r gost gyflenwi, er mwyn lliniaru'r potensial i ddiffygion gronni, rydym wedi dechrau cynyddu ein taliadau yn unol â chwyddiant. Mewn rhai cyfundrefnau mae hyn wedi gofyn am gynnydd mwy yn ystod y blynyddoedd diwethaf er mwyn sicrhau symudiad tuag at adfer costau’n llawn.

Rydym yn cynllunio'n ariannol dros gyfnod o bum mlynedd ac, yn unol â'r safonau cyfrifyddu y mae'n rhaid i ni gydymffurfio â nhw, yn anelu at fantoli ein cynlluniau codi tâl yn flynyddol. Mae hyn yn adlewyrchu'r egwyddor o godi tâl ar y rhai sy'n elwa o'n gwasanaethau ac osgoi cylchoedd o dorri a chodi taliadau.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym wedi buddsoddi mewn codi tâl rheoleiddiol, gan adeiladu gwell gwybodaeth, tystiolaeth a dealltwriaeth ynglŷn â chodi tâl. Rydym wedi cynyddu ein gallu a'n gwybodaeth i'n galluogi i gynnal adolygiadau cynhwysfawr o brosesau a chodi tâl.

Yn benodol ar gyfer Adnoddau Dŵr, rydym wedi cynnig cynnydd uwch na chwyddiant i adennill costau parhaus sylweddol Rhaglen Diogelwch Cronfeydd Dŵr Cymru sydd wedi dyblu, a lle mae'n rhaid i CNC dalu cost flynyddol cytundebau gweithredu cronfeydd dŵr Adran 20.

Mae'r diffygion hyn yn debygol o barhau nes bod adolygiadau cynhaliaeth manwl wedi'u cwblhau.

Mae'r cynigion canlynol ar gyfer 2026/27 yn ceisio sicrhau bod y lefelau gwasanaeth presennol yn cael eu cynnal:

- Taliadau Uned Safonol Adnoddau Dŵr – rydym yn cynnig cynyddu'r tâl uned safonol 7% er mwyn rheoli'r diffyg yn y maes hwn.
- Gwastraff sydd o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol – rydym yn cynnig cynnydd gan 8.5% ar gyfer 2026-27 i reoli'r diffyg yn y maes hwn.
- Deunyddiau anniwclear o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol – rydym yn cynnig cynnydd gan 8.5% i reoli'r diffyg yn y maes hwn.
- Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol – Cyfleusterau ailgylchu deunyddiau – rydym yn cynnig cynnydd gan 8.5% ar gyfer 2026-27 i reoli'r diffyg yn y maes hwn.
- Cludwyr, broceriaid a delwyr gwastraff sy'n destun y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol – rydym yn cynnig cynnydd gan 8.5% ar gyfer 2026/27 i reoli'r diffyg yn y maes hwn.

# Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Rydym am gael eich barn a'ch safbwyntiau ar ein taliadau rheoleiddio arfaethedig i'w gweithredu o **1 Ebrill 2026**. Bydd eich adborth yn helpu i lunio ein cynlluniau codi tâl terfynol, a fydd yn cael eu cyflwyno i'w cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cau am **23:59 ddydd Llun, 12 Ionawr 2026**. Gallwch gymryd rhan drwy ymweld â'n tudalen ymgynghori:

https://ymgynghori.cyfoethnaturiol.cymru/sroc/ymgynghoriad-tal-cnc-2026-27

# Diogelu data a defnyddio ymatebion

Bydd staff Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) sy'n arwain yr ymgynghoriad hwn yn adolygu'r holl ymatebion a gellir eu rhannu o fewn CNC i gefnogi'r gwaith o gynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol.

Byddwn yn dadansoddi ac yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion a ddaw i law. Mae'n bosibl y bydd ymatebion testun rhydd a gyflwynir drwy e-bost neu'r post yn cael eu cyhoeddi'n llawn.

Er mwyn sicrhau tryloywder, byddwn yn cynnwys enw a rhan o gyfeiriad yr ymatebwyr wrth gyhoeddi adborth ar yr ymgynghoriad. Pe bai'n well gennych ein bod yn cuddio'r manylion hyn, nodwch hyn wrth gyflwyno'ch ymateb a byddant yn cael eu tynnu o ddeunydd sy'n cael eu cyhoeddi.

Er ein bod yn cymryd camau i ddiogelu gwybodaeth bersonol, mae'n bosibl y bydd enwau a chyfeiriadau'n cael eu datgelu o hyd o dan *Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000* neu *Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004*, sy'n caniatáu i'r cyhoedd gael mynediad i'r wybodaeth a gedwir gan CNC.

# Y camau nesaf

Yn dilyn yr ymgynghoriad, byddwn yn cyhoeddi'r holl sylwadau ynghyd â'n hymatebion ar ein gwefan.

Os byddwch yn rhoi cyfeiriad e-bost wrth gyflwyno eich ymateb, byddwn yn cydnabod ein bod wedi ei dderbyn ac yn eich hysbysu pan fydd crynodeb o'r ymatebion ar gael ar-lein.

Yn dibynnu ar yr ymatebion a gawn i'r ymgynghoriad hwn, ein nod yw ceisio cymeradwyaeth y gweinidogion yng ngwanwyn 2026 ar gyfer y newidiadau arfaethedig. Yn amodol ar gymeradwyaeth y gweinidogion, ein nod yw lansio ein cynllun taliadau wedi'i ddiweddaru ar 1 Ebrill 2026.